

Gwylwch y perygl!

“Paul, apostol Crist Iesu trwy ewylllys Duw.” (adn. 1)

Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 1:1–11 ac yna myfyrio

Gadewch i ni ein hatgoffa ein hunain o sut y gall llysgennad ei gael ei hun mewn trafferthion. Pan fo'n cyrraedd y wlad lle'i danfonwyd, mae'n gweld popeth o bersbectif ei wlad ei hunan. Ond, yn araf ac yn ddiarwybod, mae'n dechrau meddwl ynddo'i hun fod yna ffyrdd gwahanol o edrych ar bethau. Wrth iddo fyw yn y wlad ddieithr, wrth iddo wrando ar safbwyntiau gwahanol, ac os yw, ar yr un pryd, yn methu â dal cysylltiad gyda'i wlad enedigol, mae'n syrthio i'r perygl o golli ei ddinasyddiaeth.

Dywedodd un hen ŵr wrthyf yn fuan wedi fy nhröedigaeth: “Cyfrinach llwyddiant yn y bywyd Cristnogol yw sylweddoli eich bod yn perthyn i genedl newydd. Rwyf yn Gymro o ran genedigaeth naturiol, ond, oherwydd dy fod wedi dy eni o'r newydd, rwyf bellach yn ddinesydd y nefoedd. Os byddi i reolau'r nefoedd ddod i wrthdaro â rheolau'r ddaear, cofia mai rheolau'r nefoedd sydd i gael y flaenoriaeth. A chofia eto,” meddai, “mai cyfrinach dy lwyddiant yw gweddi. Gwylia dros dy amser tawel gyda Duw, bob dydd. Mae'n bwysig dy fod yn siarad ag ef, yn gwrando arno, ac yn cyfrif fel perygl bopeth sydd am dorri dy gysylltiad ag ef.” Mae'r geiriau “Cyfrif fel perygl bopeth sydd am dorri dy gysylltiad ag ef” yn dal i atseinio yn fy atgof ysbrydol. Does yr un ffordd i'r llysgennad Cristnogol ddiogelu ei wir ddinasyddiaeth yn y byd dieithr yma heb iddo yn gyson, yn ddyddiol gobeithio, weddio a myfyrio ar yr Ysgrhythur. Rhaid dychwelyd mor fuan ag sydd bosibl i wlad dy ddinasyddiaeth di.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 18:1–8; 1 Cron. 16:11; Math. 26:41; 1 Thes. 5:17

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae Iesu'n ceisio ei ddwyn allan o'r ddamag hon?
2. Beth oedd anogaeth Paul i'r Thesalonïaid?

Gweddi

Arglwydd, diogela fi rhag cael fy niweidio oherwydd nad wyf yn dal cysylltiad gyda'r nefoedd. Cadw fi'n effro i'r angen i dreulio amser yn dy gwmni di. Cadw fi'n effro i'r angen i dreulio amser yn gyson, nid nawr ac yn y man. Er mwyn Iesu Grist. Amen.